Credydau treth – rhoi gwybod am newid mewn amgylchiadau

Beth yw credydau treth?

Mae'r daflen ffeithiau hon yn trafod taliadau credydau treth. Mae yna ddau fath o gredyd treth:

- Mae Credyd Treth Gwaith yn arian ychwanegol a gewch gan y llywodraeth os ydych yn gweithio ac ar incwm isel
- Mae Credyd Treth Plant yn arian ychwanegol a gewch gan y llywodraeth os oes gennych blant. Nid oes rhaid eich bod yn gweithio i gael Credyd Treth Plant.

Mae p'un ai y gallwch gael credydau treth a'u swm yn dibynnu ar eich incwm ac amgylchiadau eich teulu.

Telir credydau treth gan Gyllid a Thollau EM (HMRC).

Pam mae'n bwysig rhoi gwybod am newid mewn amgylchiadau?

Os nad ydych yn dweud wrth HMRC am newid yn eich amgylchiadau sy'n effeithio ar eich credydau treth, mae'n bosib na chewch yr holl arian yr ydych yn gallu ei hawlio, neu gallech gael gormod a bydd angen i chi ei ad-dalu.

Os yw newid yn eich amgylchiadau yn golygu y dylech gael mwy o gredydau treth, byddant yn cael eu hôl-ddyddio hyd at uchafswm o un mis. Er enghraifft, os oes gennych faban newydd ar Fai 1, ond nad ydych yn dweud wrth HMRC tan Fedi 1, byddant yn ôl-ddyddio'r cynnydd yn eich credydau treth o Awst 1.

Os ydych wedi derbyn gormod o gredyd treth, bydd y gordaliad yn cael ei gyfrifo o'r amser y newidiwyd eich amgylchiadau. Fodd bynnag, os ydych yn rhoi gwybod am newid yn eich amgylchiadau ac mae HMRC yn cymryd mwy na 30 diwrnod i'w ystyried, byddant dim ond yn adennill yr arian a ordalwyd yn ystod y 30 diwrnod cyntaf. Bydd y gweddill yn cael ei ddileu.

Mae yna rai newidiadau mewn amgylchiadau y mae'n **rhaid** i chi ddweud wrth HMRC. Os nad ydych yn rhoi gwybod i HMRC am y newidiadau hyn, mae'n bosib y bydd yn rhaid i chi dalu dirwy.

Mae yna newidiadau eraill y **dylech** ddweud wrth HMRC er mwyn sicrhau eich bod yn cael y swm cywir o gredydau treth.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Pa newidiadau mewn amgylchiadau y mae'n rhaid i chi ddweud wrth HMRC?

Mae'n **rhaid** i chi roi gwybod i HMRC am y newidiadau canlynol o fewn un mis ohonynt yn digwydd. Os nad ydych yn gwneud hyn, bydd yn rhaid i chi dalu dirwy. Mae'n rhaid i chi ddweud wrth HMRC:

- os ydych yn hawlio credydau treth fel person sengl ac yna'n priodi, cofrestru partneriaeth sifil neu'n dechrau byw gyda rhywun fel cwpwl. Mae'n rhaid i chi hawlio eto fel cwpwl
- os oeddech yn briod, mewn partneriaeth sifil neu'n byw gyda rhywun fel cwpwl ac yna'n gwahanu. Mae'n rhaid i chi hawlio fel person sengl
- os ydych yn dechrau gweithio llai na 30 awr yr wythnos (neu 16 awr, yn dibynnu ar eich hawl)
- os ydych chi neu'ch partner yn mynd i fyw dramor yn barhaol
- os ydych chi a'ch partner yn mynd dramor am fwy na wyth wythnos. Mae yna reolau arbennig os ydych yn oedi cyn dychwelyd oherwydd rydych chi neu rywun yn eich teulu yn sâl, anabl neu'n marw tra'ch bod chi dramor
- os ydych yn derbyn yr elfen gofal plant o Gredyd Treth Gwaith ac am o leiaf pedair wythnos yn olynol, rydych yn stopio talu am ofal plant neu mae eich costau gofal plant £10 yr wythnos yn rhatach
- os ydych yn stopio bod yn gyfrifol am blentyn yr oeddech yn derbyn credyd treth amdano
- os yw plentyn yr ydych yn gyfrifol amdano yn marw cyn iddo gyrraedd 20 oed
- os yw plentyn yr ydych yn gyfrifol amdano yn gadael ysgol neu gyrsiau hyfforddiant cymeradwy penodol cyn iddo gyrraedd 20 oed
- os ydych yn stopio gweithio.

Newidiadau eraill yn eich amgylchiadau y dylech ddweud wrth HMRC

Mae yna newidiadau eraill y dylech ddweud wrth HMRC er mwyn sicrhau eich bod yn derbyn y swm cywir o gredydau treth. Os nad ydych yn dweud wrth HMRC am y newidiadau hyn, mae'n bosib na fyddwch yn derbyn yr holl arian a allwch ei hawlio, neu mae'n bosib y bydd yn rhaid i chi dalu arian yn ôl.

Dylech ddweud wrth HMRC os:

- yw eich incwm yn cynyddu neu'n gostwng
- oes baban yn cael ei eni a chi sy'n gyfrifol amdano
- yw plentyn yr ydych yn gyfrifol amdano yn parhau mewn addysg lawn-amser ar ôl y mis Medi yn ystod y flwyddyn y mae'n 16 oed
- yw'r plentyn yr ydych yn gyfrifol amdano yn mynd yn anabl (neu'n peidio â bod yn anabl)
- yw eich partner yn marw
- ydych yn dechrau talu am ofal plant neu'n newid darparwr eich gofal plant
- ydych yn newid eich cyfeiriad, eich cyfrif banc neu eich cyflogwr
- ydych yn dechrau gweithio mwy na 6 awr yr wythnos (neu 30, yn dibynnu

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

ar eich hawl).

Os nad ydych yn siŵr p'un ai yw'r newid yn effeithio ar eich credydau treth neu beidio, gallwch ffonio Llinell Gymorth Credyd Treth HMRC ar 0345 300 3900.

Dylai eich ffurflen dyfarnu credyd treth esbonio'r hyn ddylech ddweud wrth HMRC pan fod eich incwm a'ch amgylchiadau yn newid.

Sut i roi gwybod am newid yn eich amgylchiadau

Gallwch ddweud wth HMRC am y newid yn eich amgylchiadau drwy ffonio Llinell Gymorth Credyd Treth HMRC ar 0345 300 3900 (ffôn testun 0345 300 3909). Nodwch y dyddiad a'r amser yr ydych yn gwneud hyn a phwy siaradodd â chi. Dylech bob amser ymateb yn ysgrifenedig i'ch galwad ffôn a chadwch gopi o'ch llythyr neu e-bost.

Problemau gyda chredydau treth

Os ydych yn credu bod swm eich credydau treth yn anghywir, gofynnwch i Linell Gymorth Credyd Treth HMRC i esbonio eu penderfyniad. Os ydych dal yn anfodlon, gallwch apelio.

Os ydych yn anhapus gyda gwasanaeth HMRC, er enghraifft oherwydd y bu oedi hir wrth brosesu eich hawliad neu eu bod wedi colli eich dogfennau, dylech gwyno yn y lle cyntaf i'r swyddfa credyd treth a ddeliodd â'ch hawliad. Os nad ydych yn fodlon â'r ymateb, gallwch fynd â'r cwyn ymhellach. Gall Llinell Gymorth Credyd Treth HMRC esbonio'r hyn ddylech ei wneud os hoffech fynd â'r cwyn ymhellach, neu mynnwch gyngor gan ymgynghorydd profiadol.

Cymorth ychwanegol

Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth
Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys eich problemau. I ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy e-bost, cliciwch ar CAB agosaf, neu edrychwch yn eich llyfr ffôn dan y llythyren C.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Budd-daliadau a chredydau treth i bobl sy'n gweithio
- Talu credydau treth
- Budd-daliadau i deuluoedd a phlant
- Credydau Treth Gwaith
- Gordaliadau credydau treth
- Talu budd-daliadau a chredydau treth

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr, Cymru a'r Alban yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 6 Ebrill 2012, a chaiff ei hadolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio p'un ai yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir ai peidio. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk – lle gallwch lawrlwytho'r copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr